COFNODION O GYFARFOD PARTNERIAETH TENANTIAID AC AELODAU WRECSAM A GYNHALIWYD YN NEUADD Y DREF, WRECSAM DYDD GWENER, 24 MAWRTH 2006

AELODAU

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Y Cynghorydd		A.C. Bailey	Y Cynghorydd		P. Jeffares
"		Nick Colbourne	"		R. Alun Jenkins
"	*	Gerry M. Craddock	"	*	Philip Michael Shone
"		Mrs. June Fearnall	"		J.R. Skelland
"		K.H. Hett	"	*	Malcolm Williams

Yn cynrychioli tenantiaid Wrecsam

Miss Natasha Hill	Mr. Graham Rowlands
Ms. Wendy Loton	*Mr. Joe Skerrith
Ms. Dorothy Mitchell	*Mr. Brian Stapley
Mr. Eric Moore	Mrs. Chris Thomas
Mr. Dave Rimmer	

*Absennol

Hefyd yn bresennol – Y Cynghorydd Mrs. J.M. Lowe a Mr. C.R. Lloyd

1 Ymddiheuriadau

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Gerry M. Craddoc a Malcolm Williams, a Mr. Joe Skerrith.

2 Croeso

Croesawodd y Cadeirydd Miss Natasha Hill, cynrychiolydd newydd y tenantiaid, i'w chyfarfod cyntaf.

3 Cofnodion

CYTUNWYD – bod cofnodion cyfarfod Partneriaeth Tenantiaid ac Aelodau Wrecsam a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2006 yn gofnod cywir.

Materion yn codi

(i) Yswiriant: Adroddodd Rheolwr y Gwasanaethau Landlord fod pedwar eiddo'n wag oherwydd difrod tân ac nad oedd yswiriant i dalu am llety i bobl ddigartref. Roedd yr adran yn newid ei pholisi o ran dechrau gweithio ar eiddo a ddifrodwyd gan dân tra bod trafodaethau'n mynd yn eu blaen gydag addaswyr colled er mwyn cyflymu'r broses o ail-osod.

(ii) Cynnig i Gael Gwared ar Erddi Cymunedol - Rhiwabon: Adroddodd Rheolwr y Gwasanaethau Landlord fod y Bwrdd Gweithredol wedi cyfeirio'r mater hwn at y Bartneriaeth i'w ystyried wrth lunio polisi i ddelio â gwarediadau, gan gynnwys polisi am osod ffensys ar ystadau cynllun agored. Nodwyd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod ym mis Ebrill. .

4 Arolwg o'r Clinigau Tai

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethu adroddiad (CHPPO/36/06) er mwyn i'r Bartneriaeth ystyried canlyniadau arolwg ar bresenoldeb ac effeithiolrwydd clinigau tai a phenderfynu a ddylent barhau.

Pwysleisiwyd yr angen am newyddlenni rheolaidd i roi gwybodaeth i denantiaid.

CYTUNWYD – i nodi'r adroddiad a chytuno ar y newidiadau canlynol i'r amserau agor neu i gau rhai clinigau:-

Cefn - Cau'r clinig
Y Waun - Cynnal clinig ar ddydd Mercher 10.00am - 12 canol dydd
Coedpoeth - Cau'r clinig
Llai - Cynnal clinig ar ddydd Mawrth 10.00am - 11.00am.
Hightown - Cynnal clinig ar ddydd Gwener cyntaf y mis rhwng 10.00am – 12 canol dydd

5 Stoc Modurdai'r Cyngor

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Landlord adroddiad (CHPPO/34/06) yn hysbysu'r Bartneriaeth o nifer y modurdai a rentir ar hyn o bryd, y gwariant arnynt a'r incwm a geir ganddynt. Gofynnwyd am farn y Bartneriaeth ynghylch rhaglenni gwaith pellach ar gyfer stoc modurdai'r Cyngor.

Cytunwyd bod angen arolygu'r holl fodurdai ar unwaith yn enwedig o ran preswylwyr preifat yn rhentu modurdai. Gofynnwyd am adroddiad arall i'r Bartneriaeth yn nodi rhenti cymharol ag awdurdodau lleol eraill, cyflwr y modurdai a rhaglen wella awgrymedig y gellid ei bwydo i mewn i'r broses gyllidebu cyn Medi 2006. Holwyd ynghylch y posibilrwydd o gyflwyno cynnydd yn y rhent yng nghanol y flwyddyn.

CYTUNWYD – i nodi'r adroddiad a chynhyrchu adroddiad arall ar gyfer cyfarfod nesaf y Bartneriaeth.

6 Diwygio'r Cytundeb Tenantiaeth

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Landlord adroddiad (CHPPO/35/06) yn hysbysu'r Bartneriaeth o'r fframwaith ar gyfer diwygio'r cytundeb tenantiaeth presennol.

Cafodd y Bartneriaeth gyflwyniad yn amlygu'r newidiadau yn y cytundeb newydd ac amserlen arfaethedig ar gyfer ymgynghori a gweithredu.

Wrth ystyried yr adroddiad, cyfeiriwyd yn benodol at:-

- gyfieithu'r ddogfen i'r ieithoedd perthnasol
- arolwg pellach i asesu a oedd y cytundeb newydd o fudd i'r Tîm Gorfodi
- pryder bod adran 5 yn cael ei dileu – cadarnhawyd na fyddai hyn yn effeithio ar hawliau gorfodol tenantiaid
- fformat newydd – awgrymwyd clawr rhydd er mwyn cylchredeg dim ond y tudalennau perthnasol pan fyddent yn cael eu diwygio yn hytrach na'r ddogfen gyfan
- manylion yr ymgynghoriad a drafft terfynol y cytundeb i'w cyflwyno i'r Bartneriaeth cyn cymeradwyaeth derfynol y Bwrdd Gweithredol

CYTUNWYD – i nodi'r adroddiad a chytuno ar yr amserlen ar gyfer ymgynghori a gweithredu.

7 Prisiadau Hawl i Brynu

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Landlord adroddiad (CHPPO/37/06) yn hysbysu'r Bartneriaeth o'r weithdrefn ar gyfer prisio eiddo'r Cyngor dan delerau deddfwriaeth hawl i brynu.

Teimlod aelodau fod y prisiadau i weld yn isel o'u cymharu ag eiddo tebyg a werthir gan asiantau gwerthu tai.

Gofynnwyd am wahodd prisiwr mewnol y Cyngor i roi cyflwyniad i'r Bartneriaeth a rhoi enghreifftiau o brisiadau ynghyd ag ystod o brisiau ar gyfer gwahanol eiddo.

Soniodd Rheolwr y Gwasanaethau Landlord y byddai adroddiad am berfformiad gwerthiannau yn y cyfarfod nesaf.

CYTUNWYD – i nodi'r adroddiad a gwahodd prisiwr mewnol y Cyngor i roi cyflwyniad i gyfarfod yn y dyfodol.

8 Ôl-Ddyledion Rhent a Chostau Adfer

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Landlord adroddiad (CHPPO/39/06) yn hysbysu'r Bartneriaeth o'r broses adfer ôl-ddyledion rhent a'r gost o ganlyn yr achosion hyn. Wrth ystyried yr adroddiad, cyfeiriwyd yn benodol at:-

- lefel y taliadau wythnosol a chostau'r llys a delir ar yr un pryd ag ôl-ddyledion.
- mae ôl-ddyledion yn cronni oherwydd y broses cyn cael yr achos i'r llys
- mae gwaith y swyddogion cefnogi'n hynod werthfawr o ran mwyhau budd-daliadau unigolion
- y broblem fwyaf yw'r bwlch rhwng 'gwrthod talu – methu talu'
- posibilrwydd o ddefnyddio atafaeliad mewn achosion a ystyriwyd gan llys y sir

CYTUNWYD – i nodi'r adroddiad.

9 Cynllun Gweithredol y Gwasanaeth Tai

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Landlord adroddiad (CHPPO/40/06) yn gofyn am farn y Bartneriaeth ar y Cynllun Gweithredol i Wasanaethau Landlord.

Nodwyd y byddai adroddiad ynghylch arolwg o ad-daliadau adrannol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bartneriaeth.

CYTUNWYD – i nodi'r adroddiad a defnyddio'r cynllun gweithredol fel sail i wella gwasanaethau yn ystod 2006/07.

10 Dyddiadau Cyfarfodydd Pellach

CYTUNWYD – i gynnal cyfarfodydd y Bartneriaeth yn Ystafell Bwyllgor 3 am 10.00 am ar y dyddiadau canlynol:-

Dydd Gwener, 28 Ebrill 2006 – WEDI NEWID o 21 Ebrill
Dydd Gwener, 9 Mehefin 2006
Dydd Gwener, 28 Gorffennaf 2006 – WEDI NEWID o 21 Gorffennaf
Dydd Gwener, 27 Hydref 2006
Dydd Gwener, 26 Ionawr 2007

Y Cynghorydd A.C. Bailey
Cadeirydd